

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg
12 Rhagfyr 2025, 10:00 – 12:00 ar Teams

Cynulleidfa	Alun Bowen (AB) (Cadeirydd), Julian Edwards (JE)
Ychwanegol	Heather Clash (HC), Bronwyn Lillico (BL) [Ysgrifennydd], Josh Hopkins (JH), Kerry O'Donovan (KO'D), Laura Jones (LJ), Malcolm Payne (MP), Mandy Garrett (MG), Steve Cole (SC), Wilma Thomas (WT), Matthew Arthur (MA), Rees Batley (RB), Clare James (CJ), Louise Thompson (LT), Ifan Williams (IW)
Ymddiheuriadau	Jeremy Morgan (JM), Suky Bains (SB), Sue Ruddock (SR), Bethany Wheatcroft (BW)

1. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Croesawodd AB y rhai a oedd yn bresennol. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad am wrthdaro rhwng buddiannau na materion am annibyniaeth. Roedd ar AB eisiau cofnodi bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi cyfraniad Louise Cheesman i'r Pwyllgor.

2. Diogelwch a Chwsmeriaid

Dywedwyd bod Tap Ymlaen Tap Ymadael wedi gwella pethau i gwsmeriaid.

3. Cofnodion a Chamau Gweithredu

Cymeradwydd y pwyllgor gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ym mis Hydref 2025.

4.

[Redacted content]

5. Cynllun Archwilio Drafft KPMG

Cyflwynodd RB Ifan Williams fel y Rheolwr Archwilio ar gyfer 2025 a rhoddodd ddiweddariad ar y Cynllun Archwilio, gan gynnwys Pullman. Nododd y pwyllgor y risgiau sy'n gysylltiedig â phrisio asedau seilwaith, gyda JE yn holi a yw KMPG yn ystyried y dulliau sy'n cael eu defnyddio gan sefydliadau tebyg fel Network Rail. Rhannodd RB ac MA ddiweddariadau ar sut mae TrC yn gweithio gyda NR.

6. Papur Sefyllfa ar Gyfrifyddu - Ffordd Arfaethedig o Drin Cyfrifon

Rhoddodd MA yr wybodaeth ddiweddaraf bod yn rhaid i TrC adolygu ei ddull gweithredu gan fod OLR yn dod i ben a bod deddfwriaeth newydd yn dechrau. Mae MA wedi ymgynghori â sefydliadau eraill, ac mae adborth cychwynnol KPMG yn gadarnhaol, er bod adolygiad manwl pellach ar y gweill.

7. Diweddariad am Yswiriant - Diweddariad ar Lafar

Rhoddodd LT yr wybodaeth ddiweddaraf am yswiriant: mae'r broses adnewyddu wedi'i chwblhau ac mae arbedion wedi'u sicrhau. Mae'r polisi seiber ar waith. Mae rhai hawliadau yn parhau, gan ddisgwyl am ddyddiadau llys.

8. Parhad/Gwydnwch Busnes

Rhoddodd SC ddiweddariad, gan adrodd bod 16 o hyrwyddwyr wedi cael eu nodi ar draws y sefydliad. Ar ben hynny, sefydlwyd gweithgor RDG—sy'n cynnwys Caffael a SC fel cyfranogwr. Dywedodd JE fod angen Cynlluniau Parhad Busnes ar gyfer pob maes a phwysleisiodd y dylai'r rhain fod yn gadarn. Nododd y pwyllgor y dylid ailedrych ar flaengynllun BCP i sicrhau bod digon o bwyslais ar feysydd critigol. Tynnodd HC ac LV sylw pellach at y ffaith bod y mater hwn yn berthnasol ar draws y busnes a bod angen dull gweithredu traws-swyddogaethol, gydag arweiniad ac arweinyddiaeth gan y Tim Arwain Gweithredol.

9. Diweddariad Rheoli Risg

Mae'r tîm wedi cwblhau gwaith i sicrhau bod gwerthoedd TrC yn cyd-fynd â'i ddull Rheoli Risg, ynghyd â sicrhau bod y dull gweithredu'n cyd-fynd â strwythur TrC. Mae Risgiau Haen 1 wedi cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn ddiweddar.

10. Amgylchedd Rheoli Mewnol - Diweddariad ar Lafar

Rhoddodd WT ddiweddariad Amgylchedd Rheoli Mewnol, gan ddweud y bydd unigolyn newydd yn dechrau ym mis Ionawr 2026. Gellir adeiladu momentwm drwy ganolbwyntio'n gyntaf ar y Datganiad Ardystio Blynyddol.

11. Dangosfwrdd Archwilio Mewnol

Nododd WT fod yr eitemau allweddol yn dangos proffil gwahanol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r archwiliad wedi nodi maes penodol sydd angen sylw, ac mae'r dangosfwrdd hwn yn tynnu sylw at ble mae angen gwelliannau.

Mae'r undebau bellach wedi cymeradwyo'r Polisi Seiber, gyda chymorth Tammy Wilson.

12. Adroddiadau Archwilio Mewnol

Roedd y pecyn yn cynnwys yr Archwiliadau canlynol i'w cymeradwyo:

- Cyflogres Rheilffyrdd TrC
- Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar gyfer Rheoli Cofnodion
- Treuliau Rheilffyrdd TrC
- Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar gyfer Rheoli Cofnodion
- Prosesau a Systemau Adroddiadau Terfynol ar gyfer Cofrestru gyda Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd
- Adroddiad ar Gyfnwidfa Fysiau Caerdydd
- Adroddiad Terfynol ar Lefelau Stoc Pullman
- Adroddiad Terfynol ar gyfer Caffael Bysiau a Defnyddio Ymgynghorwyr
- Adroddiad Archwilio Mewnol ar gyfer MS Dynamics
- Prosiectau Gwella Gorsafoedd o dan 500k
- Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar gyfer Twyll a Chwythu'r Chwiban
- Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar gyfer Diogelu
- Adroddiad Diogelu

Soniodd JE am welliannau posibl mewn prosesau papur. Rhoddodd LV ddiweddariad ar yr Adroddiad Diogelu ac Uwchgynhadledd Diogelwch y Sector Cyhoeddus, a oedd yn mynd i'r afael â thrais yn erbyn merched, camddefnyddio alcohol, ac aflonyddwch

cymdeithasol. Nododd y pwyllgor fod angen data ar dimau allanol perthnasol, fel yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, i gyfrannu at y gwaith o leoli staff.

Mae gan deithwyr yr hawl i deimlo'n ddiogel, yn ogystal â staff. Er bod mentrau amrywiol ar waith drwy'r busnes, mae angen eu cyfuno'n un fframwaith. Mae terfynau amser wedi cael eu pennu drwy ymgynghori ag Archwilio a'r Tîm Arwain Gweithredol, gan gynnwys dadansoddi'r bylchau. Rhaid i'r Bwrdd gymeradwyo pum eitem Diogelu (gan nodi nad oes un diffiniad penodol sydd wedi'i ddiffinio ymlaen llaw). Rhaid sicrhau cyllid ychwanegol hefyd, gan gynnwys nodi cyfleoedd i gael cyllid grant. Mae rhai camau pendant eisoes wedi cael eu cymryd, fel derbyn i ffrydiau gwaith glasbrint.

13. Diweddariad ar y Ddeddf Caffael a Chyflwr y Genedl

Rhoddodd CJ ddiweddariad gan gynnwys gwerthusiad Tendr.

14. Dull yr Adroddiad Blynyddol

Nododd EF rai gwelliannau i'r Adroddiad Blynyddol gan gynnwys ffigurau cynaliadwyedd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nodwyd bod rheolwr prosiect wedi'i benodi.

15. Llythyr rheoli gan KPMG ynghylch Pullman

Rhoddodd AB ddiweddariad.

16. Seiber a Llywodraeth Cymru

Soniodd MP fod gwaith yn mynd rhagddo ar y cwmpas ar gyfer ardystiad ISO. Ychwanegodd HC y cytunwyd y bydd y tîm TG yn dylunio'r strwythur, a fydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i'r Tîm Arwain Gweithredol i fod yn berchen arno.

17. Menter Twyll Genedlaethol

Rhannodd LJ yr ystadegau o'r ymarfer gan nodi i ni gael nifer isel o gyfatebiadau o'i gymharu â sefydliadau eraill a gyflwynodd setiau data mwy. Nodwyd anghenion hyfforddi o safbwynt TrC ond ni roddwyd gwybod am unrhyw dwyll na cholledion eraill.

18. Unrhyw Fater Arall

Diolchodd AB i bawb a oedd wedi cynnig cymorth dros y chwe blynedd diwethaf a rhannodd wybodaeth am ei olynydd. Dywedodd HC ei bod hi'n ddiolchgar yn bersonol, ac ar ran Trafnidiaeth Cymru, gan bwysleisio bod cyfraniadau AB wedi bod yn amhrisiadwy i'r sefydliad. Mynegodd JE ei ddiolch yntau hefyd.

Gan nad oedd unrhyw fater pellach, diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a oedd yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben.